Tafod Elái
MEHEFIN 1990 Pris 20c RHIF 48

# STONDIN PRYSUR TAF ELAI

Bu llu o gefnogwyr Eisteddfod Taf Elái draw yn Eisteddfod Dyffryn Nantlle yn cynorthwyo i werthu nwyddau 'Garth yr Arth', tocynnau raffl ac yn croesawu'r Eisteddfodwyr i'n bro y flwyddyn nesaf.

Roedd y stondin wedi ei drefnu yn bwrpasol er mwyn denu'r Eisteddfodwyr i Daf Elái ac roedd gwerthiant y nwyddau yn uwch na'r disgwyl yn ôl y trefnwyr.



Disgyblion ac Athrawon Ysgol Gynradd Heol y Celyn

## EIN BYNCAR NI?

Mae Cyngor Bwrdeistref Taf Elái yn bwriadu adeiladu Canolfan Amddiffyn Cartref yn selar Swyddfeydd y Bwrdeistref ym Mhontypridd. Adeiledir y Ganolfan yn unol a rheolau y llywodraeth i safon a fyddai'n addas ar gyfer paratoadau rhyfel. Pleidleisiodd y grŵp Llafur ar y Cyngor yn unfrydol o blaid y cynllun. Daeth cryn wrthwynebiad oddiwrth Cynghorwyr Plaid Cymru a oedd o'r farn mai adeiladu Byncar Niwcliar oedd y bwriad ac fod y Blaid Lafur yn cydweithio gyda Llywodraeth Geidwadol i wastraffu arian ar gynllun di-bwrpas yn dilyn y cytgord cynyddol rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin.

DNA 90

Llongyfarchiadau i bawb o'r fro a gymerodd ran yn Eisteddfod Dyffryn Nantlle. Yn arbennig hoffem longyfarch Ysgol Heol y Celyn ar ennill y Tlws i'r Ysgol Gynradd Uchaf ei marciau mewn gwaith llwyfan.

## GWAHODDIAD

Ar Nos Fawrth, 19fed Mehefin yng Nghlwb y Bont bydd Cyfarfod Blynyddol Tafod Elái - cyfle i chi i gynnig gwelliannau neu newidiadau neu roi barn ar gynnwys y papur ac i ystyried cael gwaed newydd i gynorthwyo gyda chynhyrchu'r papur.

Ar brynhawn dydd Mawrth yr Eisteddfod bu dirprwyaeth o Daf Elái ar lwyfan yr Ŵyl yn croesawu pawb i'n bro. Yn dilyn datganiad o'r gân 'Dwy Afon' gan blant Ysgolion Gyfun Rhydfelen a Llanhari anerchwyd y dorf gan John Albert Evans. Bu'n sôn am hanes y fro a'r twf yn y nifer o blant sy'n siarad Cymraeg. "Yn aml y dyddiau yma clywn y doethion yn proffwydo taw marw wnaiff yr iaith os na siaredir yr iaith yn naturiol yn y gymdeithas. Gallaf eich sicrhau bod yr iaith yn cael mynegiant diwylliannol a chymdeithasol cryf yn Nhaf Elái" medd Mr Evans. I orffen y cyflwyniad perfformiwyd dawns greadigol gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail a Garth yr Arth.

Tafod Elái

## PWY YW PWY

GOLYGYDD
Penri Williams Pentyrch 890040

NEWYDDION LLEOL
Mererid Morris Llantrisant 223525
ERTHYGLAU
Anna Jones Pontypridd 404697
LLUNIAU
David Penny Jones
Pontypridd 408623
HYSBYSEBION
David Knight Pentyrch 891353
DOSBARTHU
Silyn Roberts 0443 207562
TRYSORYDD
Elgan Lloyd Radur 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams Pentyrch 890979
YSGRIFENNYDD
Gill Rees Pentyrch 890571
PWYLLGOR
D.J. Davies Tonyrefail 671327
Rhodri Jones Pentyrch 890039
Gwendoline Jones
Cyril Hughes
Margaret Hughes
Wynford Ellis Owen
Rhys Dafis

# DATGANIAD DR. TIM YN CORDDI'R DYFROEDD

Tynnodd Dr Tim Williams nyth cacwn ar ei ben gyda'i erthygl yn ymosod ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y "South Wales Echo".

Yn yr erthygl honnodd Dr Williams mai diben addysg Gymraeg yw achub iaith ac nid dysgu plant, bod plant a fyddai wedi llwyddo mewn ysgolion Saesneg yn methu mewn ysgolion Cymraeg a bod dim modd i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg helpu eu plant gyda'u gwaith na rhannu eu profiadau yn yr ysgol. Hefyd honnodd bod rhieni di-Gymraeg yn cael eu twyllo i anfon eu plant i ysgolion Cymraeg er mwyn achub yr iaith.

Mae astudiaethau swyddogol a phrofiadau'r bobl â ysgrifennodd atebion i'r erthygl yn gwrthbrofi honiadau Dr Williams.

Mae pawb sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg yn gwybod bod plant, rhieni (Cymraeg a di-Gymraeg eu hiaith) ac athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ein hysgolion yn gymdeithasau hapus, yn llawn brwdfrydedd, sydd yn bendant yn rhoi'r plant yn gyntaf.

Mae llwyddiant ysgolion Cymraeg Taf Elái yn pwysleisio hyn. Am fod rhieni wedi **dewis** addysg Gymraeg maent yn ymddiddori mwy yn addysg eu plant ac mae hyn o fudd mawr i'r ysgolion.

Os rhywbeth mae erthygl Dr Williams wedi gwneud i rieni ddangos eu ymrwymiad wrth ddewis addysg Gymraeg i'w plant. Maent yn fwy penderfynol nag erioed i brofi bod addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyddo ac yn rhoi manteision amhrisiadwy i'w plant.

C.W.

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan y Bwrdd Golygyddol gyda chefnogaeth ariannol Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan

ARCH PRESS LIMITED

Cyhoeddir y rhifyn nesaf ar y 7fed o Orffennaf
Erthyglau a straeon i gyrraedd erbyn 21 Mehefin 1990

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

## CYFARFOD BLYNYDDOL

Tafod Elái

**8.00 pm Nos Fawrth**

**19 Mehefin 1990**

**CLWB Y BONT**
**PONTYPRIDD**



CANOLFAN HANESYDDOL
A DIWYLLIANNOL PONTYPRIDD

AR AGOR
Dydd Mawrth - Dydd Sadwrn 9 am - 5 pm
(a Gwyliau Banc)

MYNEDIAD
Oedolion 25c - Plant 15c

CANOLFAN CROESO

Arddangosfa
Chwaraeon ym
Mhontypridd

Heol y Bont, Pontypridd, Morgannwg Ganol
Ffon (0443) 402077/480786

CYNGOR TREF PONTYPRIDD

# Y CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Davies (891360)

SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau i Sylvia Davies, 6 Parc Castell y Mynach ar ei phenodiad fel athrawes yn Ysgol Garth Olwg. Bydd yn ymgymryd a'i swydd ym mis Medi.


CINIAWA
Os am bryd blasus a chwmni da, cofiwch sicrhau tocyn am ginio yng nghartref Jen Macdonald, Pen-y-Bryn ar Ddydd Mercher, Mehefin 13 o 12.00 hyd 3.15 y prynhawn. Yr elw at Eisteddfod Taf Elái.

YSGOL Y CREIGIAU
Bu Dosbarth 4 yn brysur yn trefnu stondinau bwyd a diod yn yr ysgol i godi arian tuag at Cymorth Cristnogol. Bu'n brynhawn llwyddiannus a gwnaed elw o £72. Da iaw nhw.

Cofiwch gefnogi Ffair yr Ysgol ar Fehfin 23.

PENODIAD PARHAOL
Rydym yn falch i glywed fod Mrs Carol Hardy wedi ei hapwyntio yn barhaol fel athrawes yn Ysgol Gynradd Creigiau.

PAPURO
Mae na sôn fod Creigiau yn y ras am y pentref taclusa ond, gwae ni, does dim llawer o obaith cyrraedd y nôd am fod gymaint o bosteri 'ACHUBWCH SYR WYNFF A PLWMSAN' ym mhobman!







Ymgyrch Syr Wynff a Plwmsan ar faes Eisteddfod Dyffryn Nantlle

CANOLFAN YR URDD, CAERDYDD
Yn eisiau erbyn mis Medi:
**Swyddog(ion) Datblygu Cynorthwyol**
i weithio gyda ieuenctid yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd.
Oriau hyblyg a thelerau i'w trafod.
Cysylltер â: Huw Davies, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffôn: 0222 236201.

# MEISGYN

Gohebydd Lleol: Mererid Morris

PWYLLGOR APÊL YR EISTEDDFOD
Cafwyd bore braf ar gyfer gwerthu planhigion yn Neuadd y Sgowtiaid fore Sadwrn, Mai 12fed, ac erbyn ganol y bore daeth trigolion i brynu ac i fwynhau paned o goffi a chlonc. Daeth rhai pobl yn unswydd oherwydd llwyddiant y planhigion a gawsant llynedd ac felly does ryfedd i'r planhigion werthu'n dda. Aeth yr elw at Eisteddfod Tâf-Elái. Diolch i bawb am eu cymorth ac am bob cyfraniad ond yn bennaf oll i Huw Rees a fu wrthi'n meithrin y planhigion ers y Gwanwyn.

Cofiwch am ein gêm griced ar brynhawn Sul Mehefin 17eg pan bydd tîm o drigolion yn brwydro yn erbyn tîm o enwogion. Prynhawn i'r teulu i gyd.

BRODYR AR Y BRîG
Llongyfarchiadau i'r ddau frawd, Carwyn ac Arwel, Stryd yr Ysgol. Dyfarnwyd Carwyn yn Brif Sgowt yn ddiweddar ac fe'i gwahoddwyd yn ôl at sgowtiaid Llantrisant fel arweinydd.

Bu Arwel yn y papur cyn hyn oherwydd ei ddawn yn chwarae rygbi ac fe'i wobrwywyd yn Chwaraewr y Flwyddyn, o dan 14 oed, gan Glwb Rygbi Llanharan eleni.

Croeso i Siân yr âst fach wyth wythnos oed i'r teulu hefyd!

HEL STRAEON

Annwyl Olygydd,

Ydych chi'n cofio'r twist? Nid y ddawns ond y baco y byddai rhai pobl yn ei 'smygu ac eraill gan gynnwys glowyr yn arfer ei gnoi.

Mae Hel Straeon yn paratoi rhaglen deledu am faco twist, yn enwedig am y defnydd ohono gan lowyr dan ddaear. Os oes gan unrhyw ddarllenydd wybodaeth i'w gyfrannu byddem yn falch iawn o glywed ganddo. Hoffem siarad â glowyr neu gyn-lowyr oedd yn arfer cnoi twist, neu'n well byth, sy'n dal i wneud hynny; siopwyr oedd yn arfer ei werthu neu sy'n dal i wneud; ac unrhyw un arall sydd â stori neu atgof a allai fod o ddiddordeb.

Gallwch gysylltu â fi yn y cyfeiriad isod neu trwy ffonio (0558) 823854.

Dyfrig Davies.
Hel Straeon
Plas Dinefwr
Llandeilo
Dyfed SA19 6RT

# FFYNNON TÂF

Gohebydd Lleol: Angharad Jones

ESTYNIAD I'R TEULU
Llongyfarchiadau i Ann a Gordon Beech ar fod yn Nain a Taid i wyres bach, Bethan Mair, merch i Catherine a Steven a chwaer i Gareth. Da gweld parhad i deulu Cymraeg cynhenid.

TRYWYDD NEWYDD
Cafwyd newid bach eleni pan aeth cefnogwyr a rhieni'r Ysgol Feithrin ar daith gerdded o amgylch Mynydd Caerffili. (Wedi gwisgo digon ar lwybrau mynydd Y Garth dros y blynyddoedd mae'n siwr). Gwenodd yr haul fel arfer, gan sicrhau cyfraniad sylweddol tuag at gronfa'r ysgol.

CAM GWAG
Mae'n dda deall fod Kirsty Smith, Rhiw'r Ddâr, ar wella yn dilyn anffawd yn yr ysgol. Cymer bwyll Kirsty!

Y BÊL HIRGRON
Ar ddiwedd tymor cyntaf 'Minis' Ffynnon Taf, gwobrwywyd pob un o'r chwaraewyr ifanc â tharian gan neb llai na Mark Ring. Arweiniwyd y noson yn ddeheuig gan Dewi Grifiths a threfnwyd lluniaeth i bawb gan y 'mini-mams'. Chwi ddarpar Mark Rings, cofiwch fod yr hyfforddi'n ail-ddechrau ar nos Iau, Gorffennaf 19eg. Ffoniwch Mike Chown ar (0222) 811411 os am fanylion pellach.

YR YSGOL FEITHRIN
Cynhaliwyd Twmpath Dawns lwyddiannus iawn yng nghwmni "Band Cadlan" yn y neuadd gymunedol ar nos Sadwrn yr 28 o Ebrill. Yn ystod y noson anrhegwyd Alwyn Harding Jones, cyn-drysorydd y Cylch Meithrin Cymraeg yn y pentre fel arwydd o werthfawrogiad o'i waith fel Trysorydd dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae nifer o blant y Cylch Meithrin yn gadael yn yr haf i ymuno â'r Uned Gymraeg yng Ngwaelod y Garth a felly mae lle i ragor o blant yn y Cylch Meithrin ym mis Medi. Mae'r cylch ar agor bob bore'r wythnos. Am fwy o fanylion ffoniwch yr Ysgrifennydd ar 0443 842079.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Mrs Elaine Williams, Tlwsfan, Gwaelod y Garth ar ei hapwyntiad fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Abercynon.

CROESO'N ÔL
Estynnwn groeso cynnes i Rhys ac Elin Tudur a'r plant yn ôl i'r pentref. Mae'n debyg mae byr fydd eu arhosiad yng Nghwm Llwydrew am eu bod am ymgartrefu yng Nghaerdydd.

URDD
Cynhaliwyd arwerthiant "Pen Byrddau" yn Neuadd y Pentref, fore Sadwrn 28 Ebrill. Roedd yn weddol llwyddiannus, ac fe chwyddodd y coffrau rywfaint, ond piti na fydde mwy o brynwyr wedi troi i fyny!

Gobeithir cynnal dawns disgo i oedolion ar ddiwedd Mehefin, ac mae disgo i'r plant wedi ei drefnu ar gyfer 19ed o Orffennaf.

YSGOL GWAELOD Y GARTH
POB LWC
Dymunwn pob lwc i Beth Rickards a fydd yn cystadlu yn yr Unawd i Blant dan Wyth oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Nyffryn Nantlle.

DIRPRWY BRIFATHRO NEWYDD
Croeso cynnes i Mr G. Eirian Williams a ddechreuodd ar ei swydd newydd fel Dirprwy Brifathro yr ysgol ar ôl y Pasg.


**IWAN DAVIES**
**A'i Gwmni**
*CYFREITHWYR*
**(0443 - 485566)**
**Ffoniwch neu dowch i'n gweld yn Stryd y Farchnad, Pontypridd am gyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol o bob math, mewn swyddfa cyfleus a chyfeillgar.**


*Y GYNGRES GELTAIDD*

Apêl am gymorth ariannol yw hwn i gynnal Cyngres Geltaidd Abertawe y flwyddyn nesaf. Cynhelir y gyngres yng Ngholeg Prifysgol Abertawe rhwng Gorffennaf 30 ac Awst 4, 1990, a'i thema fydd - Y celfyddydau yn y Gwledydd Celtaidd.

Daw tro Cymru i dderbyn y Gyngres bob chwe blynedd. dyma'r tro cyntaf i Abertawe estyn croeso i aelodau'r gymdeithas Geltaidd ryngwladol hon. Y mae pwyllgor lleol wedi'i sefydlu, sydd wrthi'n ddiwyd yn gwneud eu paratoadau. Yr ydym yn awyddus i sicrhau Cyngres fydd yn deilwng o draddodiad Cangen Cymru.

Er mwyn cwrdd a'r costau o ddarparu rhaglen o weithgareddau o safon ar gyfer ein cyd-Geltiaid o'r gwledydd eraill dymunir sefydlu cronfa gref. I'r perwyl hwn, felly, ysgrifennaf at gyfeillion pethau Cymraeg a Cheltaidd i apelio am gymorth i'r fenter hon.

Byddwn yn falch o unrhyw rhodd, fawr neu fach, ac fe fydd noddwyr yn cael eu cydnabod yn rhaglen y Gyngres.

Gwnewch eich siec yn daladwy i'r "Gyngres Geltaidd, Abertawe" a'i anfon at Eurwen Price, Y Garn Swansea Rd, Llewitha, Fforestfach, Abertawe. SA5 4NR.

Yn gywir iawn,
Eurwen Price.
(Llywydd Rhyngwladol y Gyngres Geltaidd)



*Os am*
*DIWNIWR PIANO*

*Cysyllter a*
**Hefin Tomos,**
*16 Llys Teilo Sant,*
*Y Rhath.*
*CAERDYDD.*
*Ffon: 0222 484816*

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones (408623)





YSGOL EVAN JAMES
SIARAD Â'R BYD

Trefnodd Danny Phillips (Cadeirydd y Gymdeithas Rhieni/Athrawon) i drosglwyddo negeseuon Ewyllys Da o Ysgol Evan James i unrhyw un a oedd yn gwrando ar y donfedd radio arbennig hon.

Cawsant gysylltiad â phobl o'r Eidal, America, Rwsia yn ogystal â Chymry Cymraeg o'r Gogledd ac un mor bell a Scarborough a oedd yn wreiddiol o'r Bala.

Darllenodd y plant eu negeseuon Ewyllys Da ar y donfedd fore Gwener felly cawsant wythnos ddidorol a phrysur iawn. Trefnwyd fod gan yr ysgol 'Call Sign' arbennig am yr wythnos sef G.B.O E.J.P.

Fe gynhelir Gymanfa Fodern yng Nghapel Sardis Nos Sul Mehefin 10 am 6 o'r gloch. Rhaglenni £1. Elw tuag at Eisteddfod yr Urdd.

Ar Fehefin 15fed fe gynhelir Barbeciw yng Nghlwb Rygbi Pontypridd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol.

YSGOL PONT SION NORTON

Fe gawsant ymwelydd o Awstralia yn yr ysgol ar ddydd Iau Mai 24ain sef Mr Derek Blew. Fe fu Mr Blew yn yr ysgol llynedd pan oedd drosodd yng Nghymru gyda Chôr o Awstralia ac yn ystod ei ymweliad â'r ysgol y tro hwnnw fe wnaeth 'fideo' o'r plant yn gwneud eu gwahanol weithgareddau. Mae e wedi dod yn ôl yn awr i aros yng nghartref Mrs Dorothy Todd (Prifathrawes) i fynd i Eisteddfod yr Urdd yn Nyffryn Nantlle. Côr Meibion Pendyrus dechreuodd y cysylltiad yma - pan oedd y Côr yn Awstralia Mr Derek Blew oedd 'Chauffer' Glyn Jones, arweinydd Côr Pendyrus.

Pob lwc i dîm yr ysgol fydd yn cystadlu yn Rownd Genedlaethol y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth ar Fehefin 14eg.

YSGOL HEOL Y CELYN

Ar ddechrau mis Mai fe fu'r plant yn canu a dawnsio mewn Cyngerdd arbennig yn Neuadd Sir Morgannwg Ganol ar achlysur diwedd blwyddyn y Cynghorydd Sirol John Howell Davies yn Gadeirydd y Cyngor Sir.

Nos Fawrth Mai 22ain cynhaliwyd Cyngerdd yng Ngholeg Technegol Rhydfelen gan blant Ysgol Heol y Celyn i godi arian i dalu am y bws i Eisteddfod Dyffryn Nantlle.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Gareth Miles, Parc Graigwen, a fu dan llawdriniaeth yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg yn ddiweddar.


*GWYL WERIN PONTYPRIDD*

*CLWB Y BONT*

*Yn Cyflwyno*

CALENNIG

HEATHER JONES

A HIN DEG

RAILROAD BILL

MABSANT

JOHN RODGE

*ac eraill*

*Dydd Sadwrn, Mehefin 30 ,1990*

*O Ganol Dydd tan Ganol Nos*

*Tocynnau:*

*Prynhawn £3.50*

*Nos £3.50*

*Trwy'r Dydd £6.00*


## MERCHED Y WAWR CANGEN Y GARTH

Beth well a hithau'n fis Mai na chael hyfforddiant a chyfeiriad ar sut i baratoi basgedi blodau ar gyfer yr haf. Dyna'n union oedd ar feddwl Merched y Wawr ar y nawfed o'r mis, a phwy well i gael i roi blas ar y mwsogl, y pridd a'r planhigion na Carys Whelan.

Rhwng bwrlwm ei sgwrs, ei gallu i hyfforddi, a'i chrefft yn llunio basgedi blodau a fyddai gyda hyn yn blodeuo'n lliwgar, cawsom noson ddifyr a diddorol dros ben.

Wrth gwrs, y prawf mwyaf ar ddisgyblion y noson fydd cael cyfle i grwydro'r ardal ymhen rhyw fis neu ddau i weld ffrwyth eu llafur - tybed bryd hynny a welir strydoedd Pentyrch, Creigiau, Gwaelod y Garth a Ffynnon Taf yn fôr o liw, â'r basgedi yn llwythog o gyfrinachau Carys Whelan. Tybed?

Roedd yn braf cael croesawu Vi nôl i'n plith wedi gwella'n llwyr wedi ei chwymp, ond tra roedd un yn dychwelyd, dyma golli chwerthin harti Gill Rees o'r criw wedi iddi hithau orfod gorweddian wedi anafu ei chefn. Brysia nôl!

Bydd y cyfarfod nesaf yn ddirgelwch llwyr - wel, hynny yw heblaw am y dyddiad, cadwch 13eg o Fehefin mewn cof wnewch chi ar gyfer ein Taith Ddirgel.

A ninnau'n tynnu at derfyn tymor llwyddiannus arall cofiwch fod angen pwyllgor i gynnal a chadw'r gweithgarwch. Dyma'ch cyfle chi i gyfrannu yn ymarferol at y llwyddiant ac i ymestyn ffiniau i'r dyfodol. Rhowch o'ch gwasanaeth wnewch chi!

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Beti Treharne

CÔR MEIBION LLANTRISANT
Ar ddechrau mis Mai aeth Côr Meibion Llantrisant i bentre hyfryd Hook Norton. Fe drefnwyd Cyngerdd yno i godi arian ar gyfer adnewyddu Eglwys Llantrisant. Cafwyd amser bendigedig gan bawb, a noson ardderchog i goroni'r cyfan!

Roedd y côr hefyd yn canu mewn cyngerdd yn y Ganolfan Hamdden ar ddechrau Mai fel rhan o Ŵyl Llantrisant. Braf oedd gweld cynulleidfa mor dda yno. Mae aelodau'r côr wedi bod wrthi'n ddiwyd yn gwerthu tocynnau raffl er mwyn codi arian i'r côr fynd i California yn ystod mis Hydref eleni. Dymunwn pob llwyddiant iddynt gyda'r gwaith arbennig mae'n nhw'n ei wneud.

"CASHIER" YN SIOP TESCO
Llongyfarchiadau i Simon John o Ysgol y Pant ar gael ei ddewis yn 'Cashier' gorau Tesco - De Cymru. Cofiwch sgwrsio yn Gymraeg gyda Simon pan welwch e yn y siop.

CHWARAEON
Yn ystod mis Ebrill fe fu Geraint Rowlands, Maes yr Haul yn cystadlu mewn cystadlaethau canŵ ym Martley. Fe ddeth e'n gynta yn y gystadleuaeth mewn tîm o dri ac roedd e'n ail yn y gystadleuaeth unigol. Pob hwyl iddo yn ystod tymor yr haf.

Fe fu Hywel Rowlands, y brawd mawr o'r un teulu, yn cystadlu yng Nghwmbran. Fe gafodd y wobr gyntaf yn rhedeg yn y ras 400m a'r ail yn y râs 3000m.

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Huw Davies a Helen (Bala) ar enedigaeth Alaw - chwaer fach i Curon. Fe fu Huw a Helen yn byw ym Maes yr Haul, Llantrisant.

YSGOL GYMRAEG LLANTRISANT
Ar ddydd Sadwrn Ebrill 28 bu tîm rygbi yr ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth 7 bob ochr yng Ngholeg Pontypridd. Roedd na 16 tîm yn y gystadleuaeth. Fe aeth tîm Llantrisant cyn belled â'r rownd derfynol ac fe gollon nhw 16-0 yn erbyn Ysgol St Joseph, Caerdydd, ond fe ddaethon nhw yn ôl i'r ysgol wedi ennill Tarian Clwb Rygbi Pontypridd. Llongyfarchiadau i'r bechgyn a'u hyfforddwr, Mr Thomas.




Carfan 7 bob ochr Ysgol Llantrisant
Cefn: Nathan Bridges, Christian Bundy, Iestyn Rowlands, Jonathan Racz, Alun David a Mr N. Thomas, Hyfforddwr.
Blaen: S.Tarling, David John, Timothy Russell, G.Triggs.
Absennol: Huw Jones

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm 'Raligamps' yng Ngŵyl y Cyhoeddi yn Nhonyrefail. Fe enillodd Esyllt Swain, Gareth Triggs, Janine Dowden, Kelly Legge a Craig Kelly fedalau arian. Roedd tîm yr ysgol yn ail yn y gystadleuaeth rhwng yr ysgolion.

Fe fu plant Safon 4 yn ymweld â Llangrannog dros y penwythnos Mai 11 - 13. Fe gawson nhw amser ardderchog. Diolch i Mrs Carole Willis a Mrs Sharon Jones am eu gofal dros y plant.

Mae 14 o blant yr ysgol wedi bod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd (Sir), ac fe fydd gwaith y plant yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nyffryn Nantlle. Llongyfarchiadau i Jonathan Razz, Jodi Hyatt, Carolyn Owen, Tristan Jones, Katie Jones, Daniel Lewis, Alun David, Nathan Bridges, Esyllt Swain, Angharad Cox, Diane Owen, Amy Ryan, Lowri Goodwin a Lesley James.

Ar Fai 10fed roedd plant o ysgolion y cylch yn canu mewn Cymanfa Ganu yng Nghapel Tabor Llantrisant. Diolch i Mrs Pam Mahoney am arwain.



David John - Chwaraewr y Flwyddyn dan 11 oed Clwb Rygbi Pontyclun

PENBLWYDD 18 OED
Llongyfarchiadau i Helen Calvert ar gyrraedd 18 mlwydd oed ar Fai 16. Mae Helen yn aelod o Glwb Golff Llantrisant a Phontyclun. Fe fu hi'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Timau Cymru yng Nghlwb Golff Ashburnham, Porth Tywyn. Pob hwyl i Helen yn ystod tymor yr haf.

# TONTEG

Gohebydd Lleol: Siân Jones

CYLCH MEITHRIN TONTEG
Cynhelir yr Ŵyl Feithrin eleni o 17eg i 23ain o Fehefin. Caiff plant bach y cylch meithrin gyfle i ddathlu'r Ŵyl gyda chylchoedd meithrin eraill Taf Eláí ddydd Mercher, Mehefin 20 fed pan geir diwrnod o Hwyl a Sbri yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant. Darperir gweithgareddau lu ar gyfer y plant felly dowch i'r hwyl.

SALEM
BEDYDD
Ar fore Sul, Mai 6ed bedyddiwyd Meilir Owain, ail blentyn Ann a Delwyn Siôn, a brawd bach Lowri. O gofio am waeledd Meilir ac yntau ond ychydig wythnosau oed, roedd yr achlysur yn arbennig o hapus. Gweddiwn y bydd Meilir yn parhau i wella. Hyfrydwch hefyd oedd cael cwmni aelodau'r ddau deulu yn yr oedfa.

NEWYNNU
Diolch i bobl ifanc y capel a fu'n newynnu am bedair awr ar hugain i godi arian i'r rhai nad ydynt yn mynd heb fwyd o ddewis. Trefnwyd y newynnu gan 'World Vision' i godi arian i'r Trydydd Byd.

MERCHED Y WAWR
Cynhelir cyfarfod nesaf y mudiad nos Fercher, Mehefin 20fed pan fydd yr aelodau yn mynd ar wibdaith hanesyddol. Disgwylir gwybodaeth fanylach yn nes at y dyddiad!

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau i Gary Samuel, 7 Penywaun ar gael ei benodi'n Swyddog datblygu gydag Undeb Rybgi Cymru. Bydd Gary'n gweithio yn Rhanbarth C yr Undeb gan ymweld ag Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a Chlybiau Ieuenctid yn ardaloedd Pontypridd, Rhondda, Aberdâr, Merthyr ac Aberhonddu.

CYDYMDEIMLO
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Joyce Thomas a'r teulu 16 Heol Iscoed ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

EMYNDONAU JOHN HUGHES
Roedd Mr Glynne Jones, arweinydd Côr Meibion Pendyrus yn ddiolchgar iawn i aelodau Salem am eu cymorth yn darganfod un ar bymtheg o emyn-donau John Hughes ac am wybodaeth am ei gefndir. Casglwyd y wybodaeth ar gyfer darlith a draddodwyd gan Mr Jones yn ddiweddar. Mae'n debyg i John Hughes gyfansoddi o leiaf 37 o emyn-donau yn ogystal â dwy unawd, dwy anthem a chân ddeulais. Teimla aelodau Salem y dylid cadw record o'r cyfansoddiadau yn y capel ond tybed a all rhywun ddod o hyd i'r un emyn-dôn ar hugain arall. Rhestrir yr emyn-donau coll yng nghyntedd y capel ac os oes unrhyw un â gwybodaeth amdanynt cysylltwch ag un o aelodau'r capel.

YSBYTY
Dymunwn yn dda i Mr R Norris, Heol y Ffynnon sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Y TABERNACL
Derbyniwyd tri aelod newydd i'r Eglwys yng Ngwasanaeth y Cymun ddechrau'r mis. Mae Tony ac Yvonne Williams a'r plant wedi bod yn dod yn gyson i'r capel ers rhai blynyddoedd. Croeso hefyd i Mrs Valmai Arnold a ddaeth o Borthcawl i fyw i'r pentref yr Haf diwethaf.

CYMORTH CRISTNOGOL
Bu gweithgaredd brwd yn y Tabernacl yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni eto. Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus ar y Nos Fercher a bu prynu a gwerthu brwd yn neuadd y pentref. Yn ôl yr arfer disgynnodd y prynwyr fel "pla o locustiaid" ar y stondin deisennau pan ddaeth Llinos Prys Davies drwy'r drws â'i hambwrdd yn llawn o'r meringues mwyaf bendigedig. Tra roedd y gwragedd yn mwynhau'r danteithion yn y neuadd fe fu'r gwyr a'r bobl ifanc yn chwarae gêm bêl droed yn y Parc.

Aelodau Teulu Twm a drefnodd y gwasanaeth fore Sul i ddathlu Dydd Ewyllys Da. Roedd yn galondid i weld cymaint o bobl ifanc gyda'i gilydd yn harddu'r sedd fawr a'r pulpud ac yn cyflwyno eu neges mor raenus. Diolch i Ann Dwynwen Davies am roi arweiniad iddynt. Roedd yn braf wedyn cael ymlacio ac hamddena yng nghwmni'n gilydd ar ôl yr oedfa a chael cinio Sul wedi ei baratoi ar ein cyfer gan aelodau'r gynulleidfa Saesneg. Daeth y cinio Sul yma'n draddodiad bellach yn Y Tabernacl a bydd elw'r ginio'n cael ei gyfrannu i goffrau Cymorth Cristnogol.



Tim Raligamps Ysgol Llantrisant
Craig Kelly, Esyllt Swain, Kelly Legge,
Gareth Triggs, absennol: Janine Dowden.

**ARWEINYDD CYLCH MEITHRIN**
Mae angen arweinydd/arweinyddes yng Nghylchoedd Meithrin Pentyrch a Llanilltud Faerdref ar gyfer mis Medi eleni. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â Glenys Jones. Ffôn: 0443 201516.

DnA90

## ENILLWYR DYFFRYN NANTLLE

Adrodd i ddysgwyr 8-10 oed: 2il Hannah Reed, Ysgol Gynradd Creigiau.
Parti Adrodd i ddysgwyr dan 12 oed: 3ydd Ysgol Heol y Celyn.
Parti Penillion dan 12 oed: 1af Ysgol Heol y Celyn.
Parti dan 12 oed: 2il Ysgol heol y Celyn.
Parti Adrodd dan 12 oed: 2il Ysgol Heol y Celyn.
Addysg Gorfforol Unigol dan 12 oed: 2il Rachel Jones, Ysgol Gynradd Creigiau.
Addysg Gorfforol Grŵp dan 12 oed: 3ydd Ysgol Gynradd Creigiau.
Parti Adrodd i Gyfeiliant dan 12 oed: 1af Ysgol Heol y Celyn, 3ydd Ysgol Garth Olwg.

Unawd Telyn 12-15 oed: 1af Sally Ann Jones, Ysgol Gyfun Llanhari.
Tîm Merched 12-15 oed Addysg Gorfforol - 1af Ysgol Cardinal Newman.
Deuawd Penillion dan 15 oed: 3ydd Llinos a Nia, Ysgol Gyfun Llanhari.
Addysg Gorfforol 12 i 15 oed: Cydradd 3ydd Rhiannon Williams, Ysgol Gyfun Llanhari.
Parti Dawns Blwyddyn 1,2 a 3: 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Tîm Addysg Gorfforol 12 i 15 oed: 1af Ysgol Gyfun Newman, Pontypridd.
Cyflwyniad Llafar Blwyddyn 1,2 a 3: 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Cân Actol dan 15 oed: 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Addysg Gorfforol Tîm y Bechgyn 12 i 15 oed: 1af Ysgol Uwchradd Newman, Pontypridd.

Addysg Gorfforol Merched 15 i 19 oed: 3ydd Louise Anzani, Ysgol Uwchradd Newman.
Addysg Gorfforol Tîm y Merched 15 i 19 oed: 2il Ysgol Uwchradd Newman.
Addysg Gorfforol Bechgyn 15 i 19 oed: 1af Mark Bew, Ysgol Uwchradd Newman.
Parti Bechgyn Blwyddyn 4,5 a 6: 3ydd Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Parti Adrodd 15 i 19 oed: 1af Ysgol Gyfun Llanhari.
Parti Dawns Blwyddyn 4,5 a 6: 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Cyflwyno Detholiad Llafar Blwyddyn 4,5 a 6: 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Cân Gyfoes 14 - 25 oed: 1af Ysgol Gyfun Llanhari.



Lesley James a Lowri Goodwin
Ysgol Llantrisant. Ail yn adran
Collage dan 12 oed.

Cerdd y Gadair, cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 llinell: 2il Daniel Evans, Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Barddoniaeth Dosbarth 4 a 5: 2il Huw Roderick, Ysgol Gyfun Llanhari.
Rhyddiaith Dosbarth 4 a 5: Cydradd 2il Julie Ann Cowdry, Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cydradd 3ydd Huw Roderick, Ysgol Gyfun Llanhari.
Gwaith Project Dosbarth 4 a 5: 2il TDPB, Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Gwaith llafar ar dâp. Dosbarthiadau 4 i 6: 3ydd Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Cyfansoddi Cerddoriaeth Dosbarthiadau 1 i 3: 2il a 3ydd Nia Elenid Price, Ysgol Gyfun Llanhari.

DYLUNIO A CHREFFT

Collage dan 8 oed: 3ydd - Rhys Blake, Ysgol Gynradd Evan James.
Cywaith Collage dan 12 oed: 2il - Lowri a Lesley, Ysgol Gynradd Llantrisant.
Ffotograffiaeth Print Lliw Blwyddyn 4 a 5: 2il Gwyn H. Roberts, Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Arddangos Gwaith:
Jonathan Racz, Ysgol Gynradd Llantrisant. Chris Duncan, Ysgol Mihangel Sant, Pontypridd. Mathew Maidment, Ysgol Mihangel Sant. Justine Drinkwater, Ysgol Garth Olwg. Carol Evans, Ysgol Creigiau. Ceri Anwen, Ysgol Gyfun Llanhari. Frances Jones, Ysgol Mihangel Sant.


**TESCO**

### A YDYCH YN SIOPA YN TESCO?

Os ydych yn siopa yn weddol reolaidd mewn unrhyw siop Tesco yna gallech (yn ddi-gost) helpu'r Eisteddfod yn ariannol.

Bydd trefniant ar gael ar gyfer mis Gorffennaf ac yna misoedd Medi ymlaen i ddefnyddio tocynnau siopa (vouchers) Tesco i godi arian i'r Eisteddfod.

Bydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn prynu gwerth miloedd o bunau o docynnau ar ddiwedd pob mis ac yna yn trefnu i'w gwerthu i unigolion drwy yr ardaloedd apêl yn ystod dyddiau cyntaf y mis canlynol. Er enghraifft gallai teulu brynu gwerth £200 o docynnau ar ddechrau pob mis ac yna eu defnyddio yn ystod y mis (neu yn ddiweddarach) gan roi elw i'r Eisteddfod o £10, heb unrhyw gost i'r teulu. Gellir defnyddio y tocynnau mewn unrhyw Siop Tesco ar unrhyw amser am unrhyw nwyddau (ag eithrio petrol), a bydd yr elw yn mynd at darged eich ardal apêl.

Bydd rhai ardaloedd yn dechrau ym mis Gorffennaf a'r gweddill, gobeithio, ym mis Medi neu Hydref. Os ydych yn fodlon ymuno â'r trefniant ddechrau Gorffennaf byddwch cystal â ffonio Guto Roberts, Llantrisant 228196, a rhoi amcangyfrif iddo o werth y tocynnau y byddech yn ddebygol o'u prynnu.

# TAF ELAI 1·9·9·1

Annwyl Olygydd,

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i bawb a roddodd o'u hamser a'u hegni i werthu nwyddau yn Stondin y Steddfod yn Nyffryn Nantlle. Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb ohonoch am y gwaith da.

Os byddwch ar gael ar gyfer Eisteddfod Cwm Rhymni ar ddechrau mis Awst tybed a fedrwch gysylltu â mi (Pentyrch 891344) neu Margaret Calvert (Llantrisant 222908) i nodi pa ddiwrnod sy'n gyfleus i chi.

I'r rhai na fu yn Nyffryn Nantlle, gallaf eich sicrhau fod gweithio yn y babell nwyddau yn hwyl garw!

Ar ran
y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd,

Emlyn Davies.
(Cadeirydd)




EISTEDDFOD TAF ELAI 1991

**YN EISIAU**

Mae'r Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yn chwilio am bersonau brwd ac egniol i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

**SWYDDOG TECHNEGOL**
Dyma'r person fydd yn gyfrifol am arwyddion cyhoeddusrwydd, byntings, posteri ac agweddau ymarferol.

**SWYDDOG MARCHNATA**
Rydym angen rhywun i farchnata'r nwyddau, cynnig syniadau newydd a delio gyda chyflennwyr.

Cyfanswm y cyflog ar gyfer y ddwy swydd yw £DIM, ac mae'r oriau'n feithion a'r pwyllgorau'n niferus.

Ond o ddifrif, os ydych yn fodlon helpu cysylltwch â Emlyn Davies (Pentyrch 891344)



## RON LAWRENCE AR Y BRIG

Mae'r darlun o Lantrisant a gomisiynwyd ar gyfer Eisteddfod Taf Elái wedi ei dderbyn i'r Academi Frenhinol. Rydym yn llongyfarch yr arlunydd, Ron Lawrence, ar yr anrhydedd haeddianol hwn ac yn ymfalchio yn ei lwyddiant.

Mae'r printiau o'r llun yn cael eu gwerthu am £45 er budd yr Eisteddfod a gellir talu amdanynt dros gyfnod. Cysylltwch â Gareth Williams, Pentyrch 891168.

Cyfeillion yn cynorthwyo ar stondin prysur Eisteddfod 1991 ym Mharc Glynllifon. Roedd llu o nwyddau Garth yr Arth ar werth yn cynnwys mygiau, beiros, Crysau T, bathodynnau, balwns a sticeri.

Bu Garth yr Arth ei hun wrthi'n brysur yn helpu i werth tocynnau raffl ar faes yr eisteddfod.

# FFAU'R PLANT


Llongyfarchiadau i chi gyd a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'n braf cael gwneud ffrindiau newydd yng Ngogledd Cymru.






Welsoch chi Lleuco ar y posteri yn croesawu pawb. Dyma luniau ohono i chi liwio.

## EWCH O DDOT I DDOT



## CORNEL JÔCS

Bore da, Doctor.
A! - Bore da Musus Jones, yn gyntaf oll, anadlwch i mewn yn ddyfn, ddyfn.
Da iawn, da iawn ... rwan ta, anadlwch allan.
Ffffffw
Da iawn, da iawn ... diolch yn fawr ...
Testio fy anadl i oeddech chi, doctor?
Be? O! Na, na ... eisiau glanhau fy sbectol oeddwn i!!!

Ha ha! Ha ha!

**Del:** Mam, dydy fy fflachlamp i ddim yn gweithio.
**Mam:** Falle mai'r batri sydd wedi rhedeg allan.
**Del:** Na, mae'n nhw dal i fod yma!

Ho ho! Ho ho!

**Orig:** Wyt ti eisiau clywed jôc fudr?
**Wyn:** Oes!
**Orig:** Syrthiodd y dyn i ganol y mwd.

# YSGOL GYMRAEG GARTH OLWG

PENODIAD
Llongyfarchiadau i Mrs Sylvia Davies, 6 Parc Castell y Mynach, Y Creigiau ar ei phenodiad i staff yr Ysgol. Bydd yn dechrau ar ei gwaith ym mis Medi. Bu Sylvia'n gweithio ym myd y cyfrifiaduron gyda chwmni masnachol yng Nghwmbran am flynyddoedd ond fe benderfynodd gyfeirio ei gyrfa i fyd addysg ac mae ar hyn o bryd ar fin cwblhau ei chwrs hyfforddi yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Croeso mawr iddi i Garth Olwg.

CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Miss Gwyneth Samuel ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

LLANGRANNOG
Bu nifer o aelodau'r Urdd yn bwrw'r Sul yn Llangrannog yn ystod yr hanner tymor 'ma. Yn ôl pob hanes cafwyd amser bendigedig yno yn sgio ar y llethr sgio ac yn ymuno yn amrywiol weithgareddau'r Gwersyll. Mr Robin Hughes fu'n gofalu amdanynt.

YMWELIAD ARBENNIG IAWN
Braint oedd cael croesawu Esgob Llandaf i'r ysgol fore Dydd Mawrth, Mai 22ain. Fe ymunodd gyda ni yn y Gwasanaeth Boreol ac wedyn fe fu'n ymweld â'r plant i gyd yn eu dosbarthiadau.

CELF A CHREFFT
Bu amryw o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yng Nghystadleuthau Celf a Chrefft yr Eisteddfod Sir eleni. Dyma restr o'r buddugwyr:-
Argraffu dan 8 oed: 1af Gareth Eyres. Model 3D dan 8 oed: 1af Nathan Davies. Model 3D 8-10 oed: 1af Justin Drinkwater, 2il Gareth Lloyd, 3ydd Rhiannon Curtis. Model 3D 10-12 oed: 1af Joanna Bishop. Tecstiliau 8-10 oed: 2il Lynsey Moule. Tecstiliau 10-12 oed: 1af Rebecca Adlam. Tegan Meddal dan 8 oed: 1af Angharad Owen. Tegan Meddal 10-12 oed: 1af Joanna Bishop, 2il Anna Mair Jones, 3ydd Rebecca Adlam. Pyped 10-12 oed: 1af Rebecca Adlam, 3ydd Anna Mair Jones.

Gwau a Croshio dan 10 oed: 1af Natalie Davies. Collage dan 8 oed: 2il Katie Davies. Collage dan 10 oed: 1af Sarah Unett, 2il Helen Bishop, Cymeradwyaeth: Helen Easterbrook, David Easterbrook, Bethan Williams.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Ann Dwynwen Davies






TAITH GERDDED
Bu plant a mamau'r Ysgol Feithrin yn cerdded o gwmpas y pentref gyda'r athrawes, Mrs Kim Hillier, fore Llun, Mai 14eg, i godi arian at yr achos. Wedi cerdded ar hyd Heol y Pentref, Lôn y Fro, Bronhaul, Heol Penuel, Bronllwyn, Temperance Row a High Corner, llwyddwyd i gyrraedd Parc y Twyn i fwynhau picnic cyn iddi ddechrau bwrw glaw. Fe godwyd £200 at y cylch meithrin - Da iawn chi, blantos.

MINI RYGBI
Ar brynhawn Sul braf yng nghanol mis Mai cynhaliwyd rowndiau terfynol cystadleuaeth mini-rygbi Pentrych ar faes Parc y Dwrlyn. Trefnwyd yr achlysur gan Glwb Rygbi Pentyrch a'r elw'n mynd tuag at Eisteddfod 1991.


**SIOP BARA Y PENTREF**
*Heol St Illtyd, Pentre'r Eglwys*
**Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.**
**Mrs Janet Evans**
**0443 202013**
*Trefnir Arlwyo.*

# CAPEL Y TON

Saif Capel y Ton ar lecyn uchel, gweladwy bron o bob man yn y Ton. Cafodd ei weddnewid yn ystod yr wythnosau diwethaf drwy gael ei baentio. Fe beintiwyd y muriau tu fewn ychydig dros flwyddyn yn ôl a theimlai'r aelodau y dylai'r nenfwd hefyd gael côt o baent. Gwnaed hynny ar ddechrau'r flwyddyn hon a chan fod y paentwyr a'r offer wrth law penderfynwyd paentio'r tu allan. Er nad yw'r gwaith wedi ei orffen eto mae'n edrych yn wych ac yn destyn edmygedd yn y Ton.

Dechreuodd yr achos Methodistaidd yn y flwyddyn 1770. Drwy haelioni teulu Pritchards, Fferm Collena, cafwyd lle i addoli yn y ffermdy ag yna rhoisant ddarn o dir yn ymyl y ffordd yn y Ton i adeiladu'r capel cyntaf yn 1791. Er mai aelodau eglwys wladol oedd y Pritchards bu eu haelioni yn fawr iawn i hybu'r achos newydd yn y Ton. Ar ôl rhai blynyddoedd aeth y Capel cyntaf yn rhy fach felly aethpwyd ati i godi capel mwy ai osod yn ôl o ymyl y ffordd i'r fan lle saif y capel presennol. Eto tua 1863 helaethwyd y capel i'r maint presennol ond fe wnaed tipyn o waith ychwanegol iddo yn 1905 a dyna fel y saif heddiw. Adeiladwyd y festri yn 1857 ar wahan i'r capel ond diflannodd honno a'r tŷ Capel yn 1968 i ledaenu'r ffordd.

Un o bregethwyr amlycaf y ganrif ddiwethaf yn y cylch, ag yn wir dros Gymru gyfan a'r ffîn oedd yr Hybarch William Evans. Ganwyd ef yn 1795 ar fferm Garthgraban Fach a oedd rhywle ar yr hen ffordd o'r Ton i Lantrisant, heibio i Bantybrad a Rhiwfelen. Bu yn ffermio yn ogystal a phregethu gydol ei oes ar fferm Crucurlas sydd yn adfeilion erbyn heddiw. Rhoddodd ei wasanaeth i Gapel y Ton yn rhad ac am ddim, fel y mynegir iddo ar y gofeb y tu ôl i bwlpud Capel y Ton. Fe deithiodd dros Gymru gyfan a bu galw mawr amdano i bregethu ar y Suliau ag yn ystod yr wythnos. Ar ei deithiau yn ei fro ei hun byddai'n mynd o le i le ar gefn ceffyl ac arferai ddisgyn oddi ar y ceffyl pan yn mynd i fyny allt. Ond rhyw noson wedi iddo ddod oddi ar y ceffyl trodd y ceffyl yn afreolus a gorfu i William Edwards fynd nôl ar ei gefn ac yna aeth y ceffyl i ffwrdd nerth ei draed. Roedd lleidr penffordd yn aros amdano ar ben yr allt ond diolch i'r ceffyl dihangodd heb anhap. Bu farw yn 1894 yn 99 mlwydd oed.



Un arall o blant yr eglwys a aeth i'r weinidogaeth yw y Parch H. R. Davies a fu yn weinidog ym Methlehem, Treorci ac yn Aberystwyth, ac sydd wedi ymddeol erbyn hyn i fyw yng Nghaerdydd. Y Parchedig Ieuan J. Owen oedd gweinidog ola'r eglwys, yntau wedi ymddeol i fyw yn Nhonteg.

Gwasanaeth ar nos Sul yn unig sydd yng Nghapel y Ton ar hyn o bryd, nid yn aml ydym heb genad. Mae yna ddwy chwaer yn chwarae'r offeryn sef Mrs Beryl Davies a Miss Vida Morgan, dwy cyn-brifathrawes. Erbyn hyn mae Mrs M. Hunt yn helpu, athrawes yw hi hefyd a chyn aelod o Gapel Libanus, Gilfach Goch. Rydym yn ddyledus iawn i Mr Ken Davies sydd wedi brwydro yn galed i gadw'r Capel yn raenus. Gobeithio y caiff nerth i gadw mlaen am flynyddoedd eto.

D.J.D.



## *EWROSGOL CYMRU*

Mae yna deulu o ieithoedd bychain yn Ewrop - 31 ohonynt tu mewn i'r Gymuned Ewropeaidd yn unig. Mae'r niferoedd sy'n eu siarad yn amrywio o'r ychydig filoedd i filiynau, a rhyngddynt mae dros 40 miliwn yn eu siarad.

Rhwng Ebril 3 a 7, 1991 bydd Gŵyl Ewrosgol, sef gŵyl i blant a phobl ifanc yr ieithoedd bychain yn cael ei gynnal yn ardal Dwyfor. Cynhelir gweithgareddau ar y cyd rhwng plant o'r cymunedau tramor a phlant o Gymru. Mae cyfle i nifer cyfyngedig o blant o bob Sir yng Nghymru fynychu'r Ŵyl sy'n cynnwys chwaraeon, teithiau, cyngerdd a dawns gyda lluniaeth a llety yn rhad ac am ddim. Bydd yna raglen o ddarlithoedd a seminarau hefyd ar gyfer oedolion ar bynciau hanfodol bwysig i ddatblygiad Cymreictod gan siaradwyr blaenllaw yn y maes.

Ceir manylion pellach am yr ŵyl ar Stondin Nant Gwrtheyrn yn Eisteddfodau Dyffryn Nantlle a Chwm Rhymni neu oddiwrth: Gareth James, Gweinyddwr Ewrosgol, Nant Gwrtheyrn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 6PA.

# TONYREFAIL A GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL GYMRAEG

Mae grŵp o ddawnswyr creadigol o'r ysgol wedi cael gwahoddiad i gymeryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle i groesawu'r ymwelwyr i Eisteddfod Taf Elái 1991. Dymunir pob llwyddiant a mwynhad i bob un fydd yn cynrychioli'r fro. Mae tîm 'Hel Straeon' wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar yn tynnu lluniau o'r ddawns, a hynny ar gae Tynybryn, lleoliad yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau i Mrs Jean Williams am hyfforddi'r plant ac am eu llwyddiant yn y gorffennol.

MARWOLAETH MR PROSSER

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Miss Betty Prosser a'i brawd, Mr David Prosser ar golli eu tad yn ddiweddar. Bu yn dioddef ers cryn dipyn ond cafodd ofal tyner gan ei deulu a fu heb os nag onibai yn gyfrwng i estyn ei fywyd. Roedd yn dadcu i Miss Helen Prosser, sydd yn adnabyddus dros Gymru, a'i brawd, Michael. Mae eu mam, Mary, wedi bod yn anhwylus ers rhai wythnosau ac wedi bod o dan driniaeth llaw feddygol. Dymuniadau gorau iddi a llwyr wellhad buan.

PWYLLGOR APÊL Y TON

Mae'n ddrwg iawn gennym glywed am salwch ein hysgrifenyddes Mrs Gillian Edwards o'r Gilfach Goch. Diolchwn ei bod ar wellhad a dymunwn iddi adferiad llwyr buan a'i gweld yn ôl yn y pwyllgorau. Mae Gillian wedi dysgu Cymraeg ac yn medru'r iaith yn rhugl. Mae ganddi hi a'i gŵr ddwy fach sydd yn Ysgol Gymraeg y Ton. Bydd yr hynaf yn mynd i Ysgol y Cymmer ym mis Medi nesaf.

Mae Mrs Deidre Roberts wedi dod i'r adwy fel ysgrifenyddes. Mae hi hefyd yn Glerc i Gyngor Cymuned Tonyrefail. Mae ei gŵr, Russell, yn gynghorydd lleol, mae ganddynt ddau fachgen a fu yn yr ysgol Gymraeg lleol ac Ysgol Gyfun Llanhari. Mae Russell hefyd yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Apêl a chadeirydd llywodraethwyr yr Ysgol Gymraeg.

TWMPATH DAWNS

Ar Fehefin 16eg bydd Twmpath dawns ar fferm Tref y Rhug am 7.30 tuag Apêl Yr Eisteddfod.

## *CARNIFAL YR EISTEDDFOD*

Yn ein hymdrech i godi arian tuag at yr Eisteddfod penderfynwyd ymgymeryd at drefnu y Carnifal a fu'n cael ei redeg gan y Clybiau yn y gorffenol ac arferai cael ai gynnal ar un diwrnod. Rydym wedi penderfynu ei wneud yn ŵyl dros wythnos eleni.

Sefydlwyd is-bwyllgor i ymgymeryd â'r gwaith caled felly rydym wedi dod â'r trefniadau i derfyn. Y peth pwysicaf bellach ydi cael cefnogaeth i'r gwaith caled.

Dyma'r Rhaglen:-

**Dydd Sadwrn, Gorffennaf 7ed.**
'Miss Tonyrefail' dewis Brenhines y Carnifal. Dawnsio ac Adloniant yng Nglwb y Non-Pol o 7.30 pm. Rhaid i bob un sydd yn cynnig am y teitl fod dros un ar bymtheg oed neu â chaniatad ysgrifenedig oddi wrth ei rhiant.

**Nos Lun, Gorffennaf 11fed.**
Disco i'r Ifanc dan 14 oed yn Adran yr Ieuenctid Ysgol Gyfun Tonyrefail o 7.00 i 10.00.

**Nos Fercher, Gorffennaf 11ed.**
Noson o Gomedi a Cherddoriaeth gan Chwaraewyr Di-enw o Donyrefail yn yr Ysgol Uchaf Ysgol Gyfun Tonyrefail am 7.30 pm.

**Nos Iau, Gorffennaf 12.**
Cymanfa Ganu yn cynnwys Côr Merched Tref y Rhug yng Nghapel y Ton, Tonyrefail am 7.30 pm.

**Nos Wener, Gorffennaf 13.**
Caws a Gwin "Noson Cabare", Artistiaid a Band Dawnsio yn yr Ysgol Gyfun am 7.30.

**Dydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg.**
**CARNIFAL.** Yr orymdaith drwy'r Ton i Barc Tyn-y-Bryn. Gŵr Gwadd - Roy Noble - Arddangosfeydd, Gemau, Organ Ffair, Bandiau Jazz gyda Band a Disco i ddilyn o 4.30 hyd 7.30pm.
Os nad ydych yn gallu dod i'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos ...
**Peidiwch â cholli'r Carnifal.**

## Y PYSGOTWR

Cyhoeddwyd cylchgrawn newydd ym mis Mai a fydd yn adlewyrchu a hyrwyddo pysgota dŵr ffres a llynnoedd yng Nghymru. Cyhoeddir y cylchgrawn bob tri mis a bydd yn cynnwys erthyglau perthnasol ar yr amgylchfyd a phethau sy'n effeithio ar bysgotwyr a physgod.

# YNYSYBWL

Gohebydd Lleol: Nansi Valentine

EGLWYS NODDFA

Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog ar Ebrill 26 wedi ei drefnu i godi arian tuag at Clefyd Parkinsons. Gwesteion y noson oedd merched Côr Ellis o dan ei harweinyddes Mrs Mair Evans gyda unawdwyr John Williams, tenor, a Bryn Morgan, Bâs. Llywydd y noson oedd Mr William Harding. Clefyd Parkinsons yw elusen Eglwys Noddfa eleni a chyflwynwyd £750 i Mrs Phyllis Samuel, Ysgrifenyddes Cymdeithas Parkinsons yng Nghaerdydd.

PRIODAS

Ar brynhawn Sadwrn Mai 5 yn Eglwys Noddfa priodwyd Ian Thomas, mab Mr a Mrs Gareth Thomas, Glyn Street a ŵyr i Mrs Criselda Thomas, Crawshaw Street, â Alison Hancock, merch Mr a Mrs John Hancock, Crawshaw Street. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parch Gwilym Davies.

COLLED SYDYN

Roedd pawb wedi syfrdanu gan farwolaeth sydyn Mrs Mary Gully, Tonteg, gynt o Ynysybwl, ac yn ferch i'r diweddar Mrs Irene Maud Howells, Glynmynach Street. Roedd Mary yn 44 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w gŵr Randall a'r plant.

COLLI CYFEILLION

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Esther Rees, Robert Street, gweddw y diweddar Iorweth Rees. Cydymdeimlwn a'i merched a'u teuluoedd.

Bu farw hefyd Miss Gwen M Jones cyn-brifathrawes Ysgol Glanffrwd. Roedd Miss Jones yn brifathrawes yn yr hen ysgol ac ymddeolodd yn 1972 ar ôl llawer o flynyddoedd yn dysgu plant.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Jeff Evans a fu farw Dydd Mercher Mai 9. Roedd Jeff yn aelod yn Eglwys Noddfa. Cyn ei ymmddeoliad yr oedd Jeff yn cadw trefn arnom ni yn y pentref - fe oedd y Sarjent. Dioddefodd yn ddewr yn ei gystudd ac wrth weld y torf oedd yn ei angladd Dydd Mawrth Mai 15 fe welwyd y parch roedd gan pawb tuag ato.

Gweinyddwyd y gwasanaeth yn Neuadd Cwrt Gower Davies ac yn Ymlosgfa Glyn Taf, Pontypridd gan ei Weinidog - y Parch Gwilym Davies.

# LLYFRAU NEWYDD

ARIAN AM DDIM Bob Eynon
Nofel antur syml i ddarllenwyr uwchradd.
Gwasg Dref Wen £2.25

CALEB Mair Wynn Hughes
Hanes Caleb a'i deulu yn crafu bywoliaeth o'r gwaith copr yn Amlwch. Nofel i blant o 9 i 12 oed. Gawsg Gomer £1.95.

CANA'R FFLIWT Wyn Thomas
Cyfrol ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd sydd a'u bryd ar ddysgu canu'r ffliwt.
Y Lolfa £5.95.

CAPTEN R. Lloyd Jones
Diweddariad gan Alwena Williams o nofel antur i blant. Stori afaelgar, yn llawn cyffro.
Hughes a'i Fab £2.95

CYFRES CORRYN: CHWANNEN
Emily Huws. Nofel fer i balnt 7 i 11 oed.
Gwasg Gomer £2.25.

CODI PAC Judith Hemington
Addas. Glenys Howells
Nofel i'r arddegau
Gwasg Gomer £3.25

DWYLO ETO AR Y PIANO
Sŵ Gerallt Jones.
Llawlyfr ar gyfer dysgu'r piano.
Y Lolfa £4.50

FFIWSI .... BE? Irma Chilton
Stori wreiddiol, yn llawn dychymyg ar gyfer plant 7 - 9 oed. Dref Wen £2.45

HWYL GYDA'R DELYN Mair Roberts
Hwn yw'r llyfr Cymraeg cyntaf sy'n cynnig hyfforddiant cyflawn i ddechreuwyr ifanc ar y delyn. Ceir ynddo 250 o ymarferion a darnau o gerddoriaeth.
Y Lolfa £8.50

SBONSYNIADAU Dylan Williams
Llyfr gwneud, edrych a meddwl ar gyfer plant 7 i 11 oed.
Gwasg Gomer £2.95

STRAEON GWYDION Dewi Tomos
Casgliad o straeon a chwedlau Dyffryn Nantlle a'r cylch i bobl ifanc. Gwasg Carreg Gwalch £2.50

CYFRES CORRYN:
ARWR CWTA Siân Lewis
Cael ci anferth yn anrheg penblwydd oedd dymuniad Lyn ond, yn sicr, nid ci oedd yn y bocs yn ei haros ar fwrdd y gegin! Nofel fer i blant 7 i 10 oed.
Gwasg Gomer £2.25



**Plant Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn cyflwyno y ddawns greadigol yn seremoni croesawu'r Eisteddfod i Daf Elái**

CYFRES CORRYN: BECHGYN YW'R GORE
Elgan Philip Davies.
Mae bechgyn a merched Safon 2 benben a'i gilydd eto! Rhaid i Alun a'i ffrindiau brofi unwaith ac am byth mai bechgyn yw'r gore! Nofel fer i blant 7 i 10 oed.
Gwasg Gomer £2.25

CYFRS CORRYN: CARIAD MISS
Elgan Philip Davies
A oedd Cariad gan Miss, ac a oedd o'n deilwng ohoni? Rhaid i'w hedmygwyr yn Safon 2 ddarganfod y gwir. Nofel fer i blant 7 i 10 oed.
Gwasg Gomer £2.25

CYFRES LLYFRAU LLOERIG
Nofelau ar gyfer plant sy'n dechrau cael blas ar ddarllen ar eu pennau'u hunain.
'DYMA FI - NANW!'
CRENSHIAU MÊL AM BYTH?
DYFAL DONC
PEIRIANNAU NINA
SIANCO
SYNIAD GWYCH?
Gwasg Gwynedd £2.95 yr un.

CYFRES LLYFRAU SAM TÂN
CATH MEWN COEDEN
YSGUBOR AR DAN
Storiau i blant bach yn seiliedig ar gymeriadau'r gyfres deledu.
Hughes a'i Fab £2.50 yr un.

DYSGU RHIFO GYDAG ELWYN
Elwyn Ioan
Llyfr lliwgar i ddysgu rhifo i'r plant lleiaf.
Y Lolfa £1.95

R.S. THOMAS: Y CAWR AWENYDD
Gol. M. Wynn Thomas
Yn yr ysgrifau hyn tystir i amlder doniau awdur a greodd Iago Prydderch, ac a ysgrifennodd gerddi dwys am y Duw dirgel. Dyma deyrnged diffuant i R.S. Thomas.
Gwasg Gomer £7.95

UN NOS SADWRN. Marged Pritchard
Nofel fer i'r arddegau yn sôn am Dwynwen, merch ifanc un ar bymtheg oed.
Gwasg Gomer £2.25

Nofelau cyffrous i'r arddegau hŷn ac i oedolion -
CYLCH YN CAU Evelyn Anthony
Addas. William Gwyn Jones
Mae Karl Amstat yn bensaer llwyddiannus yn Efrog Newydd ond mae ei fywyd yn llawn dirgelwch.
Gwasg Gwynedd £3.75

AR GORTYN BRAU P.D. James
Addas. Mari Lisa. Pam yn y byd y dymunai Mark ladd ei hun?
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion £3.75.

CHWERW'N TROI'N CHWARAE
Ian Rankin Addas. John Rowlands
Mae dwy ferch eisioes wedi eu llad ac un arall ar goll. Beth yw'r ddolen gyswllt rhyngddynt?
Gwasg Gomer £3.75

## POLYN TOTEM PENTYRCH

Yn y gyfres Ditectif Geiriau yn y Western Mail mae Bedwyr Lewis Jones wedi olrhain llawer o enwau ein broydd, dyma ei ddadansoddiad o enw un o bentrefi'r fro.

Mae mwy nag un Pentyrch. Mae pentre **Pen-tyrch** (yn cael ei ynganu fel yna) ar gyrion Caerdydd.

Mae yna Bentyrch yn ardal Llanfair Caereinion ym Maldwyn. Mae hefyd Bentyrch a mynydd o'r enw Garn Bentyrch yn Eifionydd.

Ac yng Ngwent yn ardal Dyndyrn neu Tintern, mae fferm o'r enw Penteri heddiw; Pen-tyrch oedd yr hen ffurf ar ei henw.

Mae'r rhain i gyd yn hen, hen enwau, yn mynd yn ôl ymhell i'r Oesoedd Canol. Mae sôn amdanyn nhw mewn dogfennau o 1300-1350.

Pen + ffurf ar y gair **twrch**, sef mochyn gwyllt, sydd yma. Ond pam y ffurf tyrch? Hen ffurf enidol ar twrch oedd tyrch. Felly, ystyr Pen-tyrch yn y dechrau oedd 'pen y twrch' - yn Saesneg 'boar's head'.

Fe ellid cymryd mai disgrifio rhyw nodwedd ddaeryddol y mae enwau fel Pentyrch - fod bryncyn neu graig sy'n debyg ei siap i ben mochyn neu faedd lle bynnag cewch chi'r enw.

Ac fe ellid egluro Pen-houch (Pen-hwch) yn Llydaw a Swine-head yn Lloegr yn yr un ffordd.

Ond mae ysgolheigion diweddar yn tueddu at esboniad arall, gwahanol.

Ganrifoedd lawer yn ôl byddai pobol cantref neu ardal yn ymgynnull mewn un man arbennig ar gyfer cyfarfodydd yn yr awyr agored.

Yn y mannau cyfarfod hynny roedd hi'n arfer gosod pen anifail ar bolyn - fel polyn totem.

Mae'n debygol iawn mai pen twrch ar bolyn yn nodi man cyfarfod cynnar oedd ym mhob un o'r pedwar Pentyrch neu Ben-tyrch yng Nghymru.

Bedwyr Lewis Jones.

## *Y PARC TREFTADAETH*

Dros yr haf bydd nifer o weithgareddau ym Mharc Treftadaeth y Rhondda.

Mehefin 16, Rali hen geir.
Mehefin 23 a 24 Dawnsio Gwerin a Chanu Gwerin.
Mehefin 30 a Gorff 1 Arddangosfa Grefftau.
Gorffennaf 6,7 a 8 Gŵyl Pen y Pwll. Cyngerdd bob nos am 7.30.

## *CODI CWESTIWN*

Dechreuodd cyfres newydd ar S4C ar nos Wener, 8fed o Fehefin sef seiat holi fyw dan y teitl "Codi Cwestiwn". Fel yr awgryma'r teitl dyma gyfle i gynulleidfa'r sianel i ofyn cwestiynau am broblemau lleol neu genedlaethol.

Ar nos Wener, 15 Mehefin bydd y rhaglen yn ymweld â Chanolfan Hamdden Llantrisant a'r panelwyr fydd Ann Davies - Awdurdod Hybu Iechyd Cymru, Dr Terry Thomas - Y Blaid Sosialaidd Ddemocrataidd, a Syr Melvyn Rosser - Cadeirydd Grwp HTV c.c.c. Cadeirydd y rhaglen yw Russell Isaac.

Bydd mynediad i'r rhaglen yn Llantrisant am ddim drwy docyn o Ganolfan Hamdden Llantrisant neu trwy gysylltu â Ffilmiau Elidir (0222) 378578.

## *BATHODYNAU TAFOD ELAI*

Cynlluniwyd nifer o fathodynnau yn hysbysebu ein papur bro gan Silyn Roberts. Cofiwch brynnu bathodyn i gefnogi'r papur.

## Annwyl Olygydd

Adran y Gymraeg
Yr Hen Goleg,
Heol y Brenin,
Aberystwyth,
DYFED.

Annwyl Olygydd,

Fel myfyrwyr yn Adran Y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, teimlem fod y broblem mewnfudo i Gymru yn un ddyrys, ac oherwydd hynny, yn gwanhau safle'r Gymraeg.

Felly, fel rhan o gwrs Crefft Adfer Iaith yn yr Adran Gymraeg - aethom ati i greu taflen a fyddai'n cynyddu ymwybyddiaeth mewnfudwyr o'r Gymraeg, ei phobl, a'i diwylliant. Nid pwrpas y daflen yw denu mwy o bobl i Gymru, ond yn hytrach i ddenu'r rhai sydd yma'n barod i ymdoddi i'r gymdeithas ac yn y pen draw, efallai, i ddysgu'r iaith.

Dosberthir y taflenni yma drwy garedigrwydd asiantwyr tai Aberystwyth i'r prynwyr tai - hyd yma.

Hoffwn ehangu'r dosbarthiad presennol i drefi eraill drwy Gymru. Gobeithiwn drwy'r llythyr yma y bydd asianwtyr tai eraill yn derbyn ein cynnig. Am ragor o wybodaeth, cysyllter â'r cyfeiriad uchod,

Yn gywir,
Elinor Wyn Reynolds.
(Ar ran myfyrwyr cwrs
Crefft Adfer Iaith,
C.P.C., Aberystwyth.)




















CYRSIAU I DDYSGWYR

CWRS I RIENI A'U PLANT
Gorffennaf 16 - 19
Canolfan Aberogwr
Rhiant £30   Plentyn £20

CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Cangen Pontyclun
Nos Lun, Gorffennaf 3ydd
am 8.00pm yn yr Ivor Arms
Llyfrau Oriel

**NOSON I'R TEULU**
Canolfan Chwaraeon
ABERCYNON
Nos Sadwrn, 14 Gorffennaf
6.00 - 10.00 o'r gloch
Codi pwysau, Jacuzzi, Sauna,
Sboncen, Badminton, Tenni Cwta,
Nofio, Disco, Twmpath,
Bwffe, Bar...
Tocyn Teulu £2

Manylion pellach oddiwrth
Colin Williams
Swyddfa Addysg Taf Elái
Heol Tyfica
Pontypridd CF37 2DD
Ffôn: 0443 407863 /485838

# Cerdd Tafod

*gyda*

*Rhys Dafis*

## *'YR AWEN LAWEN'*

Yn ddiweddar cyhoeddwyd casgliad swmpus o gerddi ysgafn o dan yr enw addas "Yr Awen Lawen". Mae'r gyfrol, a gasglwyd yn ofalus gan y prifardd Elwyn Edwards, yn llawn englynion, penillion, limrigau a cherddi o bob math, gan ugeiniau o feirdd adnabyddus.

Mae'n un o'r cyfrolau hynny sy'n bleser troi ati am funud neu ddau ar y tro gan adael iddi agor lle mynn. Mae na berlau ar bob tudalen. Dyma anrheg gwerth chweil i roi oriau o ddifyrrwch. Prynwch a gwenwch!

A minnau wedi gorfod cyhoeddi rhyfel yn eu herbyn yn ddiweddar, am resymau nad oes angen eu hegluro i ddarllenwyr Tafod Elái, roedd hi'n naturiol wrth ddyfynnu o'r gyfrol imi ddewis englynion i Gacwn a Malwod!

Cacynen

Â mi unwaith â meinwen - ar y waun
O dan wres yr heulwen,
Yno canai cacynen
A chwifio'i mawl uwch fy mhen.

Tarfais hi dros y terfyn - a chiliodd;
Pan ddychwelodd wedyn
Sarrug oedd, a f'amser gwyn
A chwalwyd gan ei cholyn.

Isfoel.

Nyth Cacwn

Unwaith cicir nyth cacwn - mae'r bygars
Mor bigog eu byrdwn:
Arwydd ffrae yw'r swae a'r sŵn,
Daw'n 'air-raid' oni redwn.

J. Lloyd Jones.

Ymosodiad haid o wenyn

Gwyro i lawr wnaeth gŵr o Lŷn - i droi clos,
Frodor clên, ond wedyn
Yn ei glos a rhwng dwy glun
Dinistr wnaeth haid o wenyn!

Dic Goodman.

Malwoden

Arddwr, bydd wyliadwrus, mae llwybr saim
Lle bu'r symyd difrys;
Daw yn llesg o dan ei llys,
A'i ddileit yw dy letys.

T.J. Harries

Malwoden

Os isel yw ei siasi, ac araf
Yw top gêr meiledi,
Mae'n chwim iawn i gyflawni
Lot o stomp o'th letys di.

W.J.Jones.


o fenter i fusnes

# Y BEIBL BUSNES CYMRAEG!

Pecyn o ganllawiau trylwyr ar gyfer rhai sydd yn ystyried mynd i fusnes, a rhai sydd mewn busnes eisoes.

O ddefnyddio **'o fenter i fusnes'** bydd gennych:

- gynllun cychwyn busnes a chodi arian,
- gwybodaeth sylfaenol o ffurf a threfn busnes,
- awgrymiadau ymarferol,
- fwy o hyder i werthu,
- system syml o gadw cyfrifon.

**Am wybodaeth bellach? cysylltwch â:**
Menter a Busnes, Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3AH
ffôn: 0970 625561 neu holwch yn eich siop lyfrau lleol.

Menter a Busnes
Yn Hybu Menter Siaradwyr Cymraeg

ASIANTAETH HYFFORDDI

Sefydlwyd gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig



PARC TREFTADAETH

**Rhondda**

***Dewch a'r teulu i brofi dipyn o hanes unigryw Cymoedd De Cymru***

**Arddangosfa Fywiog o Hanes y Rhondda**
***Oriel, Celfi, Siop Goffi, Siop Lyfrau a Chrefftau***

**Canolfan Ymwelwyr Ar Agor BobDydd**

**10.00 am - 5.00 pm**

**Mynediad £1.00, Gostyngiadau 70c.**

***Parc Treftadaeth y Rhondda***
***Lewis Merthyr, Ffordd Coed Cae***
***Trehafod (0443 682036)***